Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.11 Nawdd ar gyfer adeiladau cymunedol

Rhagarweiniad

Mae codi arian i godi neu ailwampio adeilad cymunedol yn dipyn o her. Gall gymryd unrhyw beth rhwng dwy a phum mlynedd, neu fwy hyd yn oed, o'r cynlluniau cychwynnol i gael y cyllid a dechrau'r gwaith adeiladu. Mae'n debyg y bydd angen ichi fuddsoddi cryn dipyn o amser, egni a rhywfaint o arian yn y prosiect cyn gwybod a allwch godi'r arian angenrheidiol. Felly, mae angen ichi fod yn siŵr bod angen yr adeilad yn bendant a bod gan y gymuned fynediad iddo.

Gall dod o hyd i gyllid ar gyfer eich adeilad cymunedol, neuadd pentref neu ganolfan gymunedol ymddangos i fod yn orchwyl cymhleth iawn, gyda'r holl gyrff grantiau statudol ac anstatudol sy'n gweithio ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

O gofio hyn, mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys y cyllidwyr mwyaf amlwg sydd, ar y gorau, yn rhoi blaenoriaeth i adeiladau cymunedol, neu o leiaf yn ystyried anghenion adeiladau cymunedol. Dylid defnyddio'r daflen fel arweiniad cyffredinol yn unig. Dylech o hyd geisio cysylltu â'r ymddiriedolaeth briodol am fwy o wybodaeth fanwl cyn ymgeisio.

Cofiwch y gallai fod ffynonellau cyllid lleol ar gael na restrir yn y daflen wybodaeth hon. Unwaith y bydd gennych angen neu brosiect penodol mewn golwg, awgrymwn eich bod yn ymweld â'ch cyngor gwirfoddol sirol lleol i holi am wybodaeth fanwl am grantiau, gan gynnwys unrhyw ffynonellau lleol.

Arian i Bawb Cymru

Nod y rhaglen hon gan y Gronfa Loteri Fawr yw cyllido prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, sy'n dod â nhw at ei gilydd ar gyfer ystod o weithgareddau treftadol, elusennol, iechyd, addysgol, amgylcheddol a chymunedol eraill. Mae grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gael.

Mae'r rhaglen yn barod i gyllido prosiectau a fydd wedi eu cwblhau ymhen 12 mis i gwrdd ag un neu ragor o'r nodau canlynol:

- Cefnogi gweithgareddau cymunedol.
- Ehangu mynediad a chyfranogiad.
- Cynyddu sgiliau a chreadigrwydd.
- Gwella ansawdd bywyd.

Gall ystod o fudiadau ymgeisio. Rhaid iddynt fod:

- Yn grŵp dielw gyda dogfen lywodraethu fel cyfansoddiad, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, a chyfres o gyfrifon.
- Cyngor tref neu gymuned.
- Ysgol.
- Corff iechyd.

Nid oes dyddiad cau wedi ei bennu ar gyfer y rhaglen eto.

Cyswllt:
Swyddfa'r Drenewydd
Y Gronfa Loteri Fawr, 2il Lawr, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB.
Ffôn: 01686 611 700
Ffacs: 01686 621 534
enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk
www.biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Caerdydd
6ed Llawr
1 Kingsway
Caerdydd
CF10 3JN
Ffôn: 029 2067 8200
Ffacs: 029 2066 7275

CADW

Grantiau i Adeiladau Hanesyddol
Mae Cadw'n un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n gyfrifol am warchod, cadw a hybu gwerthfawrogiad o'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru.

Rhoddir **Grantiau Adeiladau Hanesyddol** i helpu gyda'r gwaith o drwsio ac adfer adeilad neu adeiledd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig.

Rhoddir y **Grant Ardal Cadwraeth** i waith allanol ar adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth lle bernir y bydd y gwaith arfaethedig yn gwarchod neu'n harddu'n sylweddol yr Ardal Gadwraeth lle mae'r adeilad neu'r adeiledd wedi'i leoli. Dim ond gwaith i adeiladwaith hanesyddol adeilad sy'n gymwys i dderbyn grant. Ni fydd ceisiadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol neu i ail-wifrio / mesurau diogelwch er enghraifft, yn cael eu hystyried.

Grantiau Mentrau Dinesig (Treftadaeth)
Cymorth i brosiectau sy'n helpu i warchod, harddu neu wella'r amgylchedd ffisegol mewn trefi yng Nghymru, ac i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth Cymru. Mae'r cynllun wedi'i dargedu at gymdeithasau dinesig a grwpiau gwirfoddol eraill. Cynllun eang yw hwn wedi'i anelu at brosiectau sy'n cyfrannu at ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth adeiledig ac yn hybu gwerthfawrogiad ohoni, e.e. arddangosfeydd, cyhoeddi deunyddiau addysgol a gwaith ffisegol i helpu gyda chyflwyno, dehongli a gwerthfawrogi adeiladau hanesyddol (e.e. ychwanegu placiau).

Cynllun Grant Adfywio Gwledig
Gall Cadw gynnig grant tuag at atgyweirio adeilad yng nghefn gwlad er mwyn ei wneud yn addas unwaith eto at ddefnydd blaenorol neu ei addasu at ddefnydd newydd.

Rhaid i'r adeilad fod

- yn rhestredig
- 'mewn perygl'
- yng nghefn gwlad neu mewn pentref o 500 o drigolion neu lai.

Mae'r grant ar gael i ymddiriedolaethau, elusennau, cyrff cyhoeddus, unigolion, neu fusnesau (ond mae amodau os caiff yr adeilad ei werthu o fewn 10 mlynedd).

Mae'r cynllun yn addas ar gyfer adeiladau o unrhyw fath, gan gynnwys adeiladau amaethyddol, diwydiannol, crefyddol, domestig, a masnachol.

Cyswllt: Cadw,
Plas Carew, Unedau 5&7, Cefn Coed,
Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QQ
Ffôn: 01443 336 000
Ffacs: 01443 336 001
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.wales.gov.uk

Sefydliad Esmée Fairbairn

Sefydliad Esmée Fairbairn yw un o'r sefydliadau grantiau annibynnol mwyaf yn y DU. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i fudiadau sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn y DU, yn bresennol ac i'r dyfodol. Rhoddir grantiau o fewn ddau lwybr:

- Prif gronfa
- Meysydd

Mae'r Sefydliad yn gwahodd ceisiadau gan elusennau cofrestredig neu grwpiau gyda dibenion elusennol. Nid oes dyddiadau cau ar gyfer ymgeisio.

Cyswllt:
Sefydliad Esmée Fairbairn,
11 Park Place, Llundain SW1A 1LP
Ffôn: 020 7297 4700
Ffacs: 020 7297 4701
info@esmeefairbairn.org.uk
www.esmeefairbairn.org.uk

Sefydliad Charles Hayward

Mae'r Sefydliad yn rhedeg nifer o raglenni grantiau, sy'n cynnwys un ar gyfer ymchwil feddygol, rhaglen grantiau cymunedol a rhaglen i'r henoed.

Rhoddir cyllid hefyd tuag at gostau cyfalaf adeiladau, estyniadau, addasiadau, offer a dodrefnu.

Mae'r grantiau'n amrywio rhwng £1,000 a £20,000. Ambell dro, mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi grantiau mwy i brosiectau eithriadol, sy'n dangos potensial anghyffredin.

Bydd pob cais yn derbyn ateb, ond efallai y bydd rhywfaint o oedi gan mai ond pedair gwaith y flwyddyn y mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod i ystyried ceisiadau.

Cyswllt: David Brown,
Sefydliad Charles Hayward, Hayward House, 45 Harrington Gardens
Llundain SW7 4JU
Ffôn: 020 7370 7063/7067
www.charleshaywardfoundation.org.uk

Sefydliad LankellyChase

Rhoddir grantiau rhwng £1,000 a £40,000. Mae'r Sefydliad yn cyllido prosiectau yn y meysydd canlynol yn fras: y celfyddydau, treftadaeth, torri'r cylch dieflig o gam-drin ac amddifadedd, datblygu cymunedau, iechyd meddwl a throseddwyr a chymdeithas, ac, am gyfnod byr yn unig, grantiau i fudiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Rhoddir blaenoriaeth i elusennau llai, llawer ohonynt gyda chylch gwaith lleol neu ranbarthol yn unig. Prin yw'r grantiau a roddir i elusennau cenedlaethol mawr.

Mae rhaglenni penodol yn ymwneud ag adeiladau cymunedol yn cynnwys:

Treftadaeth
Eglwysi plwyf gwledig – Adeiladau Rhestredig Gradd 1 wedi eu lleoli mewn pentrefi gyda phoblogaeth o lai na mil o bobl. Grantiau cyfalaf hyd at uchafswm o £3,000.

Elusendai – rhoddir blaenoriaeth i geisiadau mewn ardaloedd gwledig sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig, sy'n rhoi llety i bobl hŷn sydd gydag anghenion tai neu

ariannol. Grantiau cyfalaf hyd at uchafswm o £5,000.

Adeiladau hanesyddol – ceisiadau gan fudiadau sy'n gofalu am adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig a ddefnyddir gan ac sy'n rhoi mynediad i'r gymuned. Rhoddir blaenoriaeth i adeiladau mewn ardaloedd gwledig. Grantiau cyfalaf hyd at uchafswm o £10,000.

Datblygu cymunedau
Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau sy'n hwyluso'r broses o greu cymdeithas fwy cynhwysol ac sy'n darparu ystod o weithgareddau sy'n:

- Cael eu rheoli a'u rhedeg gan y gymuned.
- Ymatebol i anghenion pob carfan o'u cymuned.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gwirfoddol a statudol eraill i fynd i'r afael ag anghenion eu cymuned mewn ffordd holistig.
- Ceisio datblygu strategaethau cyllid cynaliadwy i'w galluogi i gyfrannu at ddatblygiad tymor hir eu cymuned ac sy'n rhoi cyfleoedd i bawb gael cyflawni ei botensial.
- Ceisio creu cyfleoedd cyflogaeth newydd sy'n cynhyrchu cyfoeth gwirioneddol mewn cymunedau.

Mae grantiau cyfalaf o hyd at £50,000 ar gael i helpu i brynu asedau, i addasu asedau (adeilad) presennol ac i brynu cyfarpar neu offer.

Rhaid i ymgeiswyr sy'n gofyn am grantiau cyfalaf ddangos bod y mudiad yn gallu cynhyrchu incwm tymor hir o fod wedi prynu'r ased neu'r cyfarpar.

Cyswllt: Sefydliad LankellyChase,
2 The Court, High Street, Harwell,
Didcot, Sir Rhydychen OX11 0ED
Ffôn: 01235 820044
Ffacs: 01235 820044
www.lankellychase.org.uk

Sefydliad Lloyds TSB dros Gymru a Lloegr

Sefydliad Lloyds TSB yw un o'r cyrff annibynnol mwyaf sy'n ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n ceisio cyrraedd mudiadau ar lawr gwlad ledled Cymru. Dosbarthwyd tua £2 miliwn i elusennau ledled Cymru yn 2007, a swm cyfartalog y grantiau oedd £14,500. Rhoddir grantiau i elusennau lleol a rhanbarthol gydag incwm o dan £1miliwn. Cenhadaeth y Sefydliad yw cynorthwyo a gweithio mewn partneriaeth ag elusennau cydnabyddedig sy'n helpu pobl sydd dan anfantais i chwarae rhan lawnach yn y gymuned.

Cyswllt:

Canolbarth a De Cymru - Blaenau Gwent, Pen y Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tydfil, Sir Fynwy, Castell nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg.

Mike Lewis
Rheolwr Grantiau y Canolbarth a De Cymru,
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Llundain, SE1 1UN
Ffôn: 07802 540793
Ffacs: 0870 4111224
mid&southwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Gogledd Cymru - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn,

Wrecsam.

Cerys Thomas
Rheolwr Grantiau, Gogledd Cymru
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Lolundain, SE1 1UN
Ffôn: 0750 0787749
Ffacs: 0870 4111224
northwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Sefydliad Garfield Weston

Mae Sefydliad Garfield Weston wedi helpu ystod eang o fudiadau gyda grantiau o wahanol faint. Mae rowndiau cyllid blaenorol wedi helpu prosiectau yn y categorïau canlynol: y celfyddydau, cymunedol, addysg, lles, meddygol, cymdeithasol, crefydd, ieuenctid a'r amgylchedd. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau rhwng £3,000 a £1 miliwn. Rhoddir grantiau bron mewn unrhyw faes ar wahân i gymorth tramor a lles anifeiliaid. Mae'n debyg bod mwy na 85% o'r cyllid, a chyfran fwy fyth ar gyfer y grantiau mwyaf, yn mynd i brosiectau cyfalaf neu waddol.

Cyswllt: Sefydliad Garfield Weston,
Weston Centre,
10 Grosvenor Street,
Llundain, W1K 4QY
Ffôn: 020 7399 6565
Ffacs: 020 7399 6588
www.garfieldweston.org

Ymddiriedolaeth Elusennol J Paul Getty Ieuengaf

Nod yr ymddiriedolaeth hon yw cyllido prosiectau i liniaru tlodi a thrallod yn gyffredinol, ac achosion amhoblogaidd yn enwedig, o fewn y DU. Mae'r pwyslais ar helpu pobl i helpu eu hunain ac i gyrraedd eu potensial. Mae'r ymddiriedolwyr yn ffafrio prosiectau cymunedol a lleol bach sy'n gwneud defnydd da o wirfoddolwyr. Mae'r Sefydliad yn helpu pedwar prif faes budd:

- Lles cymdeithasol
- Defnydd therapiwtig o'r celfyddydau
- Cadwraeth (gan gynnwys adeiladau)
- Yr amgylchedd

Mae'r grantiau fel arfer rhwng £5,000 a £15,000, ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw. Mae rhai grantiau bach o hyd at £2,000 hefyd ar gael rhwng cyfarfodydd chwarterol yr ymddiriedolwyr. Mae blaenoriaeth yn debygol o gael ei rhoi i brosiectau yn y rhannau llai ffyniannus o'r DU, yn enwedig y tu allan i Lundain a'r De Ddwyrain, ac i rai sy'n gweithio dros fwy nag un maes budd.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Elusennol J Paul Getty Ieuengaf, 1 Park Square West, Llundain NW1 4LJ
Ffôn: 020 7486 1859
www.jpgettytrust.org.uk

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n helpu cymunedau ledled y Deyrnas Unedig. Y rhai sy'n gymwys i ymgeisio yw cyrff cyhoeddus, elusennol neu ddielw a sefydlwyd yn y DU gyda chadwraeth neu dreftadaeth fel un o'u prif bwrpasau.

Mae grantiau ar gael i brynu, gwarchod a gwella asedau o bwysigrwydd treftadaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r meysydd treftadaeth canlynol yn gymwys: henebion; adeiladau hanesyddol a'u cynnwys; tirluniau o bwysigrwydd golygfaol, gwyddonol neu hanesyddol; casgliadau llyfrgell arbennig, llawysgrifau, archifau

a chofnodion eraill, casgliadau gan amgueddfeydd ac orielau; a hanes diwydiannol, trafnidiaeth a morol.

Parciau i Bobl (rhwng £250,000 a £5 miliwn)
Mae'r gyd-fenter tair blynedd hon rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr yn helpu gyda'r gwaith o adfer ac adfywio parciau a gerddi cyhoeddus, gan gynnwys sgwariau, teithiau cerdded a rhodfeydd.

Grantiau i Atgyweirio Addoldai (£10,000 hyd at £100,000 yng Nghymru)
Dyfeisiwyd y rhaglen hon i helpu i gadw a chynnal treftadaeth sydd mewn perygl, drwy wneud gwaith atgyweirio brys i addoldai.

Menter Treftadaeth y Treflun (£250,000 hyd at £2 miliwn)
Grantiau sy'n helpu cymunedau i adfywio rhannau hanesyddol o'u trefi a'u dinasoedd. Dyfeisiwyd y rhaglen i fynd i'r afael â phroblemau mewn ardaloedd cymdeithasol ac economaidd anghenus ledled y DU. Mae'n annog partneriaethau i wneud atgyweiriadau a gwaith arall ar nifer o adeiladau hanesyddol yn yr ardaloedd hyn, ac i wella ansawdd bywyd pawb sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â nhw.

Cyswllt: Cronfa Dreftadaeth y Loteri (Cymru) Ystafell 5A, Hodge House, Guildhall Place, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY
Ffôn: 029 2034 3413
www.hlf.org.uk

Sefydliadau Teulu Laing

Mae gan y grŵp hwn gefndir Cristnogol efengylaidd, ond gyda'i gilydd mae'r rhestrau grantiau yn dyrannu i'r rhan fwyaf o feysydd lles ac iechyd yn ogystal ag i hybu Cristnogaeth, gartref a thramor. Mae cymorth i ymchwil feddygol, neu wyddonol ei natur, yn fwy prin, ac ni wneir grantiau o gwbl i'r celfyddydau. Rhoddir dros fil o grantiau y flwyddyn, ac er bod llawer ohonynt yn fach, gwneir grantiau mawr iawn hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn mynd i fudiadau cenedlaethol, mawr neu fach, gyda dim ond rhywfaint o gyllid yn cael ei roi i fudiadau lleol neu ganghennau lleol o'r rhwydweithiau mwy.

Dylai cais am grant tuag at brosiect cyfalaf penodol fod ar ffurf llythyr byr yn rhoi manylion am y prosiect, cyfanswm ei gost, faint a godwyd eisoes a rhyw syniad o sut y mae'n cael ei gyllido.

Cyswllt: Sefydliadau Teulu Laing,
33 Bunns Lane, Mill Hill,
Llundain, NW7 2DX
Ffôn: 020 8238 8890
Ffacs: 020 8238 8897

Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi

O dan ddeddfwriaeth ddiweddar, Mae perchenogion safleoedd yn gorfod talu treth tirlenwi, a rhaid defnyddio rhan ohoni er budd yr amgylchedd a'r cymunedau cyfagos sydd o fewn radiws penodol i'r safle. Os oes gennych safle ac yn meddwl bod gennych brosiect addas, rhaid ichi gofrestru fel *corff amgylcheddol.*

Bydd ENTRUST yn asesu eich prosiect ac, os yw'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol, bydd yn rhoi dogfennau i'ch prosiect fel y gallwch hawlio'r swm

gofynnol gan eich gweithredwr tirlenwi lleol. Mae ffurflenni cais a chanllawiau ar gael oddi wrth ENTRUST. Rhoddir enghreifftiau o adeiladau cymunedol sy'n derbyn cyllid ar gyfer prosiectau adeiladu a gweithgaredd.

Cyswllt: ENTRUST,
6th Floor, Acre House, 2 Town Square,
Sale, Sir Gaer M33 7WZ
Ffôn: 0161 972 0044
www.entrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Manifold

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwarchod gweithgareddau ac adeiladau o bwysigrwydd diwylliannol. Mae'r meysydd cymwys yn cynnwys: eglwysi; y celfyddydau ac addysg; yr amgylchedd ac achosion cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o grantiau rhwng £500 a £5,000 ond rhoddir grantiau mwy hefyd. Rhaid i bob ymgeisydd fod yn elusen gofrestredig. Dylid gwneud ymholiadau cyffredinol a cheisiadau am grantiau drwy lythyr yn unig.

Cyswllt:
Ymddiriedolaeth Manifold,
Shottesbrooke House, Maidenhead SL6 3SW
Ffacs: 01628 820159

Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Onyx (Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Veoila)

Nod y cynllun hwn yw hybu arferion rheoli gwastraff cynaliadwy a rhoi budd i gymunedau lleol sydd yng nghyffiniau safle tirlenwi. Rhaid i brosiectau ddisgyn i un o'r pedwar categori canlynol (a ddisgrifir hefyd fel 'gwrthrychau' yn Rheoliadau Treth Tirlenwi 1996 a 1999):

- Gwella ac adfer tir halogedig.
- Atal a symud llygredd, er enghraifft, ar dir Llwyd.
- Darparu, gwella a chynnal a chadw parciau a mwynderau cyhoeddus.
- Trwsio, adfer a chynnal a chadw eglwysi neu adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol. Rhaid i eglwysi fod ar agor i'r cyhoedd ar gyfer addoliad crefyddol, a rhaid i adeiladau eraill hefyd gwrdd â gofynion mynediad i'r cyhoedd. Mae enghreifftiau o brosiectau'n cynnwys gwelliannau i du mewn eglwysi, adfer neuaddau pentref neu adnewyddu adeilad rhestredig.

Nid oes uchafswm na lleiafswm cyllid a gallai'r Ymddiriedolaeth gyllido prosiectau bach lleol neu brosiectau mwy tymor hir. Bydd union lefel y cyllid yn dibynnu ar y prosiect unigol.

Gellir cyflwyno cais ar unrhyw adeg gan fod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Paneli Rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Onyx, Ruthdene, Station Road, Four Ashes, Wolverhampton WV10 7DG
Ffôn: 01902 794677 Ffacs: 01902 794646 info@onyxenvtrust.org
www.onyxenvtrust.org

Pobl a Lleoedd (Y Gronfa Loteri Fawr)

Nod Pobl a Lleoedd yw dod â phobl at ei gilydd i wneud eu cymunedau'n gryfach ac i wella eu hamgylchoedd gwledig a threfol. Bydd £66 miliwn ar gael drwy'r rhaglen rhwng 2005-2009, i gefnogi pobl yn gweithio gyda'i gilydd i wneud eu cymunedau yn lleoedd gwell i fyw ynddynt. Bydd yn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol, a rhai sy'n gweithio

ledled Cymru. Gall Pobl a Lleoedd gyllido prosiectau sy'n adfywio cymunedau, gwella cysylltiadau cymunedol ac yn harddu amgylchoedd lleol a mwynderau cymunedol. Bydd y rhaglen hon ar gael i'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a chyhoeddus. Bydd arian ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cymunedau neu gymunedau budd.

Cyswllt: Am wybodaeth am y grantiau neu ymholiadau cyffredinol, ffoniwch linell gynghori'r Gronfa Loteri Fawr ar **01686 611 700** neu e-bostiwch enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk

Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a hamdden. Mae'r Cyngor yn rhedeg nifer o gynlluniau cyllido sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad a gwella perfformiad pobl mewn chwaraeon yng Nghymru.

Datblygu Cyfleusterau

Cynllun cyfalaf wedi'i noddi gan y Loteri Genedlaethol i wella cyfleusterau chwaraeon ar lefel leol a chenedlaethol. Drwy gefnogi ac angori gwaith datblygu, defnyddir cyllid cyfalaf yn strategol i gefnogi datblygiad chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn bennaf mewn ardaloedd sydd eu hangen fwyaf arnynt. Yr egwyddorion sylfaenol sydd wrth wraidd dosbarthu arian i brosiectau cyfalaf ar lefel leol yw sicrhau:

- Y budd mwyaf a pharhaol i ddatblygiad chwaraeon a chymunedau.
- Gwerth am arian.
- Manteision i'r ardaloedd a'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod i fod yn fwyaf anghenus o ran hamdden, chwaraeon ac yn ariannol.

Prosiectau o £12,500 neu fwy yn ymwneud â gwaith adeiladu cyfalaf, mannau chwarae, prynu tir neu hawliau mewn tir, a / neu i brynu cyfarpar cyfalaf.

Cyswllt: eich swyddfa ranbarthol Cyngor Chwaraeon Cymru agosaf, am ragor o wybodaeth
Ffôn: 0845 045 0904
scw@scw.co.uk
www.sports-council-wales.co.uk

Ymddiriedolaeth Tudor

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cwrdd ag ystod o anghenion cyfalaf a refeniw, yn enwedig costau'n gysylltiedig ag adeiladu, i grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Gall y grantiau fod o unrhyw faint, ond mae'r rhan fwyaf rhwng £20,000 a £50,000, yn aml iawn i'w talu dros gyfnod o ddwy i dair blynedd.

Cyswllt: Yr Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolaeth Tudor, 7 Ladbroke Grove, Llundain, W11 3BD
Ffôn: 020 7727 8522
www.tudortrust.org.uk

Cwmni Amgylcheddol Viridor Credits

Nod Viridor Credits yw rhoi manteision amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau lleol ar draws y Deyrnas Unedig.

Blaenoriaethau prosiect

- hybu cyfranogiad yn y gymuned a dulliau partneriaeth
- cefnogi prosiectau sy'n amgylcheddol gyfeillgar

Dalier sylw: Rhoddir ystyriaeth arbennig i brosiectau sy'n cael sgîl-effaith ar fwy nag un categori.

Prosiectau cymwys
- adennill tir
- lleihau neu atal llygru tir
- darparu, cynnal a chadw neu wella mwynderau a pharciau cyhoeddus
- cynnal a chadw, trwsio neu adfer adeiladau sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol.

Rhoddir grantiau ar gyfer agweddau ar wariant cyfalaf a rhai refeniw. Disgwylir i ymgeiswyr fel arfer ddod o hyd i 10% o'r cyllid gan drydydd parti cyfrannog, yn daladwy i Viridor Waste Management, i ryddhau eu credydau treth tirlenwi.

Cyswllt: Viridor Credits Environmental Company, Suite D, Victoria House, Victoria Street, Taunton,
Gwlad yr Haf TA1 3FA
Ffôn: 01823 327 221
Ffacs: 01823 251 334
www.viridor-credits.co.uk

Sefydliad Wolfson

Grantiau ar gyfer adeiladau a chyfarpar, ond nid ar gyfer costau refeniw na phrosiect, mewn tri phrif faes:

- ymchwil feddygol a gofal iechyd
- gwyddoniaeth, technoleg ac addysg
- y celfyddydau a'r dyniaethau

Gall y grantiau fod yn fawr iawn a phur anaml y bydd unrhyw un yn llai na £5,000.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi grantiau ar gyfer:
- Prosiectau cyfalaf, tuag at gost adeilad newydd neu estyniad, neu i adnewyddu adeilad presennol.
- Cyfarpar ar gyfer pwrpas penodol a / neu ddodrefn a ffitiadau.

Cyswllt: Yr Ysgrifennydd Gweithredol,
8 Queen Anne Street,
Llundain W1G 9LD
Ffôn: 020 7323 5730
Ffacs: 020 7323 3241

Ymddiriedolaeth Pilgrim

Blaenoriaethau presennol yr Ymddiriedolwyr yw:

Gwarchod
Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio dyrannu tua 60% o'r grantiau blynyddol i'r maes budd hwn.
Mae gan Ymddiriedolwyr ddiddordeb arbennig mewn:
- Gwarchod adeiladau hanesyddol a nodweddion pensaernïol, yn enwedig prosiectau sy'n rhoi defnydd newydd i adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol. Fodd bynnag, bydd Ymddiriedolwyr ond yn ystyried trwsio'r adeiladwaith hanesyddol, ac nid creu cyfleusterau newydd.
- Cadwraeth gweithiau celfyddyd, llyfrau, llawysgrifau, ffotograffau a dogfennau, ac eitemau amgueddfa.
- Hybu gwybodaeth drwy ymchwil academaidd a'i lledaenu.

Addoldai
(Daw grantiau ar gyfer y maes budd hwn o ddyraniadau gwarchod ac ysgoloriaethau).
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau bloc blynyddol i drwsio adeiladwaith eglwysi hanesyddol o unrhyw enwad i Ymddiriedolaeth

Gwarchod Eglwysi Hanesyddol yng Nghymru a Lloegr. Dylid felly cyfeirio ceisiadau'n uniongyrchol at y corff priodol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i gadw cynnwys hanesyddol (organau, clychau, gwydr a henebion, ayb) a strwythurau a henebion pwysig mewn ierdydd eglwysi i addoldai o bob enwad.

Lles cymdeithasol
Ar hyn o bryd, nod yr Ymddiriedolaeth yw dyrannu tua 40% o'i grantiau blynyddol i'r maes diddordeb hwn.
- Prosiectau sy'n helpu ac yn cefnogi pobl sy'n camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.
- Prosiectau mewn carchardai.
- Prosiectau sy'n ceisio goleuo a datblygu polisi ac arferion yn y meysydd blaenoriaeth uchod.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Pilgrim, Cowley House,9 Little College Street, Llundain, SW1P 3SH
Ffôn: 020 7222 4723
Ffacs: 020 7976 0461
georgina.nayler@thepilgrimtrust.org.uk
www.pilgrimtrust.org.uk

Allchurches Trust Limited

Nod Ymddiriedolaeth Allchurches yw hybu'r grefydd Gristnogol, cyfrannu at gyllid unrhyw sefydliadau neu gymdeithasau elusennol a chyflawni unrhyw bwrpas elusennol.
Bydd grantiau'n cael eu hystyried mewn ymateb i apeliadau i gefnogi Eglwysi, sefydliadau Eglwysig, elusennau crefyddol, elusennau sy'n gwarchod treftadaeth y DU, colegau diwinyddol ac ysgolion sy'n hybu'r grefydd Gristnogol.
Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae Ymddiriedolaeth Allchurches wedi dosbarthu mwy na £44 miliwn i esgobaethau, plwyfi a mudiadau elusennol eraill.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Allchurches, Beaufort House, Brunswick Road, Caerloyw GL1 1JZ
Ffôn: 01452 528533
Ffacs: 01452 423557
atl@eigmail.com
www.allchurches.co.uk

Sefydliad Elusennol Trusthouse

Blaenoriaethau Sefydliad Elusennol Trusthouse yw unrhyw bwrpasau elusennol cyffredinol y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn yn penderfynu yn eu cylch o bryd i'w gilydd. Ar hyn o bryd, mae'r Sefydliad yn dosbarthu dros £2 miliwn bob blwyddyn. Y grant cyfartalog gan y Sefydliad yw £6,000.

Mathau o grantiau
Ar hyn o bryd, mae'r Sefydliad yn gwneud dros 350 o grantiau y flwyddyn, y rhan fwyaf ohonynt yn rhai bach (tua £6,000 yr un). Mae nifer fach o grantiau mwy (h.y. dros £10,000) yn cael eu gwneud pob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, mae yna ddwy thema i'w grantiau:

Materion Gwledig: derbynnir ceisiadau gan elusennau lleol a chenedlaethol neu fudiadau dielw sy'n ymwneud a materion mewn ardaloedd gwledig anghenus. Yn y cyd-destun yma, ystyr 'gwledig' yw dinasoedd, trefi, pentrefi ac ardaloedd sydd a llai na 10,000 o drigolion. Mae ganddynt ddiddordeb, er enghraifft, mewn prosiectau sy'n darparu trafnidiaeth i'r henoed, yr anabl neu rai dan anfantais; cysylltu â rhwydweithiau ar gyfer pobl ifanc anabl; prosiectau sy'n annog synnwyr

cymunedol megis canolfannau cymunedol neu neuaddau pentref; cynlluniau hyfforddiant cyflogaeth yn enwedig y rhai hynny sy'n hyrwyddo crefftau traddodiadol lleol; prosiectau sy'n cyfeirio at faterion megis camddefnydd cyffuriau neu alcohol neu ddigartrefedd.

Amddifadiad Trefol: derbynnir ceisiadau gan elusennau lleol a chenedlaethol neu fudiadau dielw sy'n gweithio gyda thrigolion ardaloedd trefol (h.y. mwy na 10,000 o drigolion, a ddosbarthir yn y Mynegeion Amddifadiad Cyfansawdd fel yn y 20% isaf. Mae diddordeb ganddynt, er enghraifft mewn clybiau ieuenctid; cynlluniau hyfforddiant i help pobl allan o ddiweithdra; canolfannau galw heibio ar gyfer y digartref.

Dylai eich cais nodi'n glir sut mae eich prosiect yn gweddu i'r naill thema neu'r llall.

Mae'r Sefydliad yn cynnig grantiau o dan dri chynllun ar wahân:

- Cynllun Carlam - ar gyfer ceisiadau £5,000 ac is (grantiau cyfalaf a refeniw)
- Rhaglen Grantiau Bach (grantiau cyfalaf a refeniw) rhwng £5,001 a £9,999
- Rhaglen Grantiau Mawr o rhwng £10,000 a £30,000 i brosiectau cyfalaf yn unig (e.e. adeiladau gan gynnwys adeiladau newydd, adnewyddiadau, estyniadau). Ni ddylai'r cyfanswm fod yn fwy nag £1 miliwn.

Cyswllt: Sefydliad Elusennol Trusthouse, 6th Floor,
65 Leadenhall Street,
Llundain, EC3A 2AD
Ffôn: 020 7264 4990
www.trusthousecharitablefoundation.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Gerald Micklem

Ymddiriedolaeth elusennol gyffredinol yw hwn. Ni chyfyngir o gwbl ar yr Ymddiriedolwyr o ran sut fath o brosiect neu ardal y medrant eu cefnogi, ac fel rheol maen nhw'n barod i ystyried unrhyw faes. Nid ydynt yn rhoi grantiau i, nac yn gwneud trefniadau noddi gydag unigolion neu fudiadau nad ydynt yn elusennau wedi eu cofrestru yn y DU.

Nid oes maint arferol o grant, er bod yr Ymddiriedolwyr yn gwneud nifer fawr rhwng £2,000 a £3,000. Gall y grantiau fod yn rhai unwaith yn unig, neu'n gylchol, ac i bwrpas refeniw neu gyfalaf.

Cyswllt: Mrs S.J. Shone, Bolinge Hill Farm, Buriton, Petersfield, Hampshire, GU31 4NN
ghmicklem.charitabletrust@btinternet.com
www.peter.shone.btinternet.co.uk

Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a Gweithgareddau

Mae'r cynllun grantiau hwn yn cael ei redeg gan Lywodraeth y Cynulliad i helpu mudiadau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfleusterau neu i gyflawni gweithgareddau a fydd yn hybu adfywiad cymunedau.

Mae'r rhaglen ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn unig. Rhaid i'ch mudiad fod yn hunanlywodraethol, yn bennaf ddi-fusnes, yn ddi-elw, ac er budd i'r cyhoedd. Os oes angen cyllid ar gyfer adeilad arnoch, rhaid ichi fod yn berchen cyfreithiol arno neu'n gallu dangos tenantiaeth sicr yn y tymor hir.

Mae'r rhaglen yn bennaf yn un cyfalaf. Ei phwrpas yw bod yn gronfa i fudiadau ei defnyddio i lenwi'r bylchau sy'n weddill yn eu cyllid ar ôl holi ynghylch ffynonellau cyllid eraill – gweler y rhestr o'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer cyrff cymunedol a gwirfoddol.

Rhoddir grantiau o dan Adran 126 Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996.

Ystyrir ceisiadau am arian cyfatebol ar gyfer grantiau Ewropeaidd yn yr un modd â cheisiadau eraill, ac asesir hwynt yn gystadleuol i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn gallu helpu'r prosiectau mwyaf haeddiannol.

Pa fathau o brosiectau y gellir eu cyllido?
Gall y Rhaglen eich helpu i ddarparu cyfleusterau neu gyflawni gweithgareddau i hybu adfywiad cymunedau drwy fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

- Creu neu ailwampio cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu i sicrhau mynediad cyfartal i bobl anabl fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.
- Gweithredu i wella'r amgylchedd adeiledig neu naturiol i bobl leol.
- Gwella lles y gymuned drwy annog ffyrdd o fyw egnïol ac iach.
- Darparu cyfleusterau neu weithgareddau sy'n lleihau tlodi, anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac anfantais gymdeithasol.
- Annog hyfforddiant sy'n targedu pobl agored i niwed neu wedi eu heithrio.
- Ysgogi busnesau cymunedau a mentrau cymdeithasol.
- Helpu i hyrwyddo cyfleoedd gwaith ac incymau gwell.
- Cynnwys pobl o bob oed a gallu yn y gymuned a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol.
- Cryfhau hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol y gymuned.

Faint o arian sydd ar gael?
Gellir rhoi grantiau ar gyfer prosiect cyfalaf unigol neu tuag at gostau am hyd at dair blynedd. Mae'r grantiau mwyaf fel arfer yn £100,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol (1 Ebrill tan 31 Mawrth) neu'n gyfanswm o £300,000. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau am lawer llai na hyn.

Dylai'r gyllideb ar gyfer eich prosiect fod yn gywir a realistig, oherwydd ni ellir fel arfer cynyddu grantiau ar ôl eu cymeradwyo.

Mae ceisiadau am arian cyfatebol tuag at grantiau Ewropeaidd neu grantiau loteri yn cael eu hystyried yn yr un modd ag eraill. Felly, os ydych yn gofyn am arian cyfatebol, dylech dal fedru dangos eich bod wedi holi ynghylch yr holl ffynonellau priodol eraill. Rhaid ichi gynnwys tystiolaeth o faint o gyllid y byddwch yn ei dderbyn gan y prif gorff cyllido, neu fanylion llawn os ydych yn aros am y canlyniad. Dylech fod mor realistig â phosibl wrth roi'r amserlen ar gyfer y prosiect.

A ydyw gweithgareddau masnachol yn gymwys i dderbyn cymorth?
Mae cyllid cyhoeddus i fudiadau sy'n cyflawni gweithgareddau masnachol, hyd yn oed rhai gyda statws elusennol, yn dod o dan reolau 'cymorth gwladol' y Comisiwn Ewropeaidd. O dan y rheolau hyn, caniateir grantiau o ffynonellau cyhoeddus ond os yw'r cyfanswm sydd i'w dderbyn dros gyfnod treigl o dair blynedd o dan lefel arbennig (ar hyn o

bryd, €100,000, sef tua £65,000). Fodd bynnag, gall prosiectau fod yn gymwys o dan un o nifer o eithriadau bloc, sy'n cynnwys grant wedi'i dargedu'n benodol at hyfforddiant neu greu swyddi. Gellir cael mwy o wybodaeth gan Lisa Clarridge yn yr Uned Polisi Cyfiawnder Cymdeithasol ar 01685 729307.

Cysylltiadau:
Os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd ar eich cais gyda staff yr Uned Adfywio, cysylltwch gydag Anthony Pugh – Rheolwr y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a Gweithgareddau
Ffôn: 01685 729310.
cfaphelp@wales.gsi.gov.uk

Neu gallwch gysylltu ag un o'r cynrychiolwyr rhanbarthol canlynol:

Mike O'Shea: Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Abertawe, Conwy.
Ffôn: 01685 729316
Judith Davies: Caerffili, Blaenau Gwent, Casnewydd, Torfaen, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Sir Ddinbych.
Ffôn: 01685 729315
Richard Fowler: Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Ynys Môn, Gwynedd
Ffôn: 01685 729317
Roger Plater: Powys, prosiectau Cymru gyfan

Cyllid ar gyfer gwerthusiadau ac astudiaethau ymarferoldeb

Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn elusen gofrestredig a sefydlwyd ym 1976 i hybu cadwraeth adeiladau hanesyddol yn y DU. Mae'n gwneud hyn drwy roi cyngor, gwybodaeth a chymorth ariannol ar ffurf grantiau a benthyciadau cyfalaf llog isel i brosiectau a gyflawnir gan ymddiriedolaethau cadw adeiladau ac elusennau eraill ledled y DU.

Grantiau gwerthuso opsiynau
Mae'r Gronfa hefyd yn rhoi grantiau o hyd at 75% o gost gwerthusiad opsiynau cychwynnol ar gyfer prosiect sy'n debygol o gymhwyso am fenthyciad gan y Gronfa uchod. Y grant mwyaf fel arfer yw £5,000, ond mewn amgylchiadau eithriadol gellir rhoi £7,500. Mewn achosion prin, gall y Gronfa gynnig grantiau ar gyfer gwerthusiadau opsiynau sy'n edrych ar ymarferoldeb un opsiwn yn unig, ond £3,000 fydd uchafswm y grant a roddir yn yr achosion hyn.
Bydd gwerthusiad opsiynau sy'n gymwys i dderbyn grant gan y Gronfa yn edrych ar y prif faterion cadwraeth sy'n effeithio ar yr adeilad, yn ystyried yr holl opsiynau ac yn ystyried yn fras pa mor ymarferol yw'r opsiwn mwyaf buddiol. Dylai hefyd holi ynghylch yr holl ffynonellau cyllid posibl ar gyfer y prosiect. Rhaid i'r elusen gyfuno'r holl ddarganfyddiadau cadwraeth ac ariannol, y strategaeth weithredu a'r gwaith pellach sydd angen ei wneud i ddatblygu'r opsiwn gorau.

Grantiau datblygu prosiectau ad-daladwy

Unwaith y mae ymarferoldeb prosiect wedi'i sefydlu, gall y Gronfa gynnig grant ad-daladwy, fel arfer hyd at £15,000, tuag at waith proffesiynol penodol (fel darluniau wedi eu mesur, manylion technegol, costau a chynlluniau cadwraeth neu fusnes) i helpu elusennau i ddatblygu'r prosiect i gwrdd â gofynion cais y Gronfa a chyllidwyr eraill. Mae'r grant yn ad-daladwy ac yn cael ei droi'n rhandaliad cyntaf y benthyciad gan y Gronfa cyn ei ad-dalu pan fydd y benthyciad yn cael ei dalu'n ôl. Os nad oes angen benthyciad gan y Gronfa, byddai'r Gronfa dal yn disgwyl i'r grant gael ei dalu'n ôl.

Cyswllt: Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, Alhambra House,
27-31 Charing Cross Road, Llundain,
WC2H OAU
Ffôn: 020 7925 0199
www.ahfund.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:27/07/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk